**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC19-00(p7)**

**DYDDIAD: 13 Rhagfyr 2000,**

**AMSER: 2.00 - 5.30pm**

**LLEOLIAD: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**AMCAN 1 : DIWEDDARIAD**

**Prosiectau Carlam**

Ar 1 Rhagfyr, roedd 30 o brosiectau wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol i gael £38.8 miliwn o arian. Cymeradwywyd y ceisiadau cyntaf o fewn oriau i benderfyniad y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen i gytuno ar yr Ategiad i'r Rhaglen ar 16 Hydref, sef y cam ffurfiol olaf cyn cymeradwyo'r ceisiadau. Cymeradwywyd 14 prosiect i gael hyd at £11.8 miliwn o arian o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a chymeradwywyd 16 prosiect i gael hyd at £27 miliwn o arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Amageir rhestr o'r prosiectau hyn.

O ran ymrwymiadau, mae'r rhaglen yn mynd yn ôl y disgwyl.

**Cynlluniau Gweithredu Lleol a Rhanbarthol**

Cytunodd y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar 16 Hydref y dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru archwilio'r modd o leihau'r nifer o Gynlluniau Rhanbarthol a gwella'r cysylltiadau rhwng elfennau'r Cynlluniau Lleol a Rhanbarthol o fewn y Rhaglen. Er mwyn cynorthwyo â'r broses hon, mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi llunio 'Grw^p Gorchwyl a Gorffen' i gyflwyno fframwaith gweithredol cydlynol ar gyfer y cynlluniau gweithredu lleol a rhanbarthol i alluogi cyflwyno'r Ddogfen Rhaglennu Sengl yn effeithiol a sefydlu cyfeiriad strategol ar gyfer y Rhaglen Amcan 1. Bydd y grw^p yn llunio papur a fydd yn amlinellu ei gynllun gweithredu erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen.

Aelodau'r Grw^p Gorchwyl a Gorffen yw:

- Neville Davies o Ganolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru;
- Geraint Davies o Awdurdod Datblygu Cymru;
- Yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd;
- Grenville Jackson o Gyngor Menter a Hyfforddiant Canolbarth Cymru;
- Tina Sommer o Ffederasiwn y Busnesau Bychain
- Graham Benfield o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; a
- Chris Johnes o Is-adran Materion Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn trafod y Cynlluniau Gweithredu ac adroddiad y Grw^p Gorchwyl a Gorffen yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr.

**Cylch Mis Medi**

Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r partneriaethau sydd â chynlluniau gweithredu fwy o geisiadau prosiect gyda'u cynlluniau gweithredu ym mis Medi. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn arfarnu'r prosiectau hyn, gan gymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar faterion polisi ac maent yn anelu at gymeradwyo'r prosiectau llwyddiannus yn gynnar.

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

**Rhagfyr 2000**

**ATODIAD A**

**PROSIECTAU AMCAN 1 A GYMERADWYWYD (1 RHAGFYR 2000)**

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)**

| **Blaenoriaeth** | **Mesur** | **Enw'r Sefydliad** | **Enw'r Prosiect** | **Arian o Gronfa'r ERDF** |
|---|---|---|---|---|
| 4 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru | Rhwydwaith Dysgu Cymru | £2,636,380 |
| 1 | 5 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Canolfan Menter Efrog Newydd (Penmaenmawr) | £145,467 |
| 1 | 5 | Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu Safleoedd Diwydiannol Strategol Sir Ddinbych | £699,040 |
| 5 | 6 | Cyngor Sir Ceredigion | Cymorth ar gyfer Datblygu Economaidd Lleol yng Ngheredigion | £129,800 |
| 1 | 5 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Pentref Trefol Cynaliadwy Tredomen-Penallta – Cam 1 | £760,000 |
| 6 | 3 | Cyngor Sir Penfro | Adeiladau a Seilwaith Busnes, Pont Cleddau | £1,034,677 |
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cymorth Ariannol Lleol ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig, Blaenau Gwent | £247,500 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Cynllun Grantiau ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig, Rhondda Cynon Taf | £1,418,750 |
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | Cynllun Grantiau Integredig sy'n rhoi Cymorth i Fusnesau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | £467,061 |
| 1 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Fframwaith Cymorth i Fusnesau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | £315,500 |
| 1 | 1 | Cyngor Sir Ynys Môn | MONFENTER, Cyngor Sir Ynys Môn | £216,000 |
| 1 | 1 | Cyngor Sir Gwynedd | Pecyn Datblygu Busnes yng Ngwynedd | £731,500 |
| 2 | 3 | Awdurdod Datblygu Cymru | Datblygu clwstwr Opto-electronig – cefnogwr y sector | £210,000 |
| 1 | 5 | Awdurdod Datblygu Cymru | Rhaglen Datblygu Sbeciannol ar gyfer Gogledd-Orllewin Cymru – Cam 1 | £2,864,000 |

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)**

| **Blaenoriaeth** | **Mesur** | **Enw'r Sefydliad** | **Enw'r Prosiect** | **Arian o'r Gronfa ESF** |
|---|---|---|---|---|
| 4 | 2 | Cymdeithas Gwasanaethau Gyrfaoedd Cymru | Porth Ieuenctid | £1,371,636 |
| 1 | 4 | CELTEC | Sgiliau Busnes | £369,412 |
| 4 | 3 | Cyngor a Dinas Abertawe | Gwasanaeth Sgiliau Abertawe | £1,418,239 |
| 4 | 1 | Cyfle | Cynllun Newydd-ddyfodiaid 2000 Cyfle | £131,725 |
| 4 | 1 | Gwasanaeth Cyflogaeth | Canolfan Rhaglenni Rhyngweithiol | £3,000,000 |
| 1 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru | Cronfa Manteisio ar Wybodaeth | £3,689,963 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Sgiliau Busnes a Rheoli | £2,467,617 |
| 2 | 4 | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Sgiliau Lefel Uchel Sci,Tech, Eng,ICT | £2,685,413 |
| 4 | 1 | Cyngor Sir Ynys Môn | Prentisiaeth ranedig Môn | £9,082 |
| 4 | 2 | Menter Fachwen | Prosiect Anableddau Gwynedd | £722,009 |
| 4 | 5 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Llwybrau Cyflogaeth | £429,622 |
| 4 | 1 | Parth Cyflogaeth Gogledd-Orllewin Cymru | Canolwyr Cyflogaeth Gogledd Cymru | £6,319,771 |
| 4 | 3 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Rhwydwaith Dysgu Newydd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot | £3,096,536 |
| 1 | 4 | Prifysgol Cymru, Abertawe | Cymru Prosper Wales | £1,420,393 |
| 4 | 2 | Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Gogledd Cymru | Allgymorth i'r Cymunedau | £620,254 |
| 4 | 2 | Cyngor Menter a Hyfforddiant Gorllewin Cymru Cyf. | Canllawiau a Hyfforddiant Cychwynnol | £124,910 |